Teitl y Swydd:	Swyddog Datblygu Cynorthwyol Morgannwg Ganol
Math o gontract:	Swydd llawn amser, cytundeb tymor-penodol. Cytundeb i ddechrau Medi / Hydref 2019 hyd at ddiwedd Mawrth 2020. (Dibynnir parhad y swydd hon ar gyllid allanol)
Graddfa:	Graddfa 4: £17,557 (Pwynt 1) - £20,353 (Pwynt 6)
Lleoliad:	Ysgol Gyfun Gymraeg, Llanhari.

Amdanom ni

Mae'r Urdd yn fudiad sy'n parhau i dyfu ac arloesi, ac yn un o'r cyflogwyr mwyaf sy'n gweithredu trwy'r Gymraeg. Fe sefydlwyd yn 1922, ac erbyn heddiw cyflogir dros 300 o staff, bron 55,000 o aelodau, 10,000 o wirfoddolwyr a throsiant o £10m. Byddwn yn dathlu ein pen-blwydd yn 100 yn 2022 gan weithio gydag ein haelodau a'n gwirfoddolwyr ynghyd ac amryw o bartneriaid sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, S4C, BBC, Undeb Rygbi Cymru, Cymdeithas Pêl-droed Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru, Stonewall Cymru, Chwaraeon Cymru, Ysgolion a Cholegau Cymru.

Y Swydd

Mae gennym gyfle cyffrous i berson brwdfrydig ymuno â'r tîm Ieuenctid a Chymunedol fel Swyddog Datblygu Cynorthwyol ym Morgannwg Ganol. Prif nod y swydd yw cynnig gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg gyda phobl ifanc er budd dylanwadu ar eu dewis o iaith gymdeithasol.

Am ragor o fanylion cysylltwch â Dai Bryer 07976 00 33 21 neu daibryer@urdd.org
.
Anfonwch Ffurflen Gais yr Urdd ar e-bost at swyddi@urdd.org

Dyddiad Cau: 12:00 ar 4ydd o Fedi 2019

Dyddiad Cyfweliad: 9fed o Fedi 2019

Gellir dod o hyd i ffurflen gais a disgrifiad swydd ar wefan yr www.urdd.cymru

DISGRIFIAD SWYDD			
Teitl y swydd:	Swyddog Datblygu Cynorthwyol Morgannwg Ganol	**Lleoliad:**	Swyddfa'r Urdd, Ysgol Gyfun Gymraeg Llanhari
Adran:	Ieuenctid a Chymuned	**Yn gyfrifol am:**	**n/a**
Yn atebol i :	Swyddog Datblygu Morgannwg Ganol a thrwyddo i Gyfarwyddwr y Dalaith.	**Gradd:**	Gradd 4: £17,557 (pwynt 1) - £20,353 (pwynt 6)

Prif bwrpas y swydd:
Cynorthwyo'r Swyddog Datblygu gyda holl elfennau o waith Ieuenctid a Chymunedol yn Rhanbarth Morgannwg Ganol (Sir Pen-y-bont ar Ogwr a Chylchoedd Llantrisant a Phontypridd)

Nod yr Urdd yw sicrhau cyfle, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru (rhwng 8 a 25 oed) ddatblygu'n unigolion cyflawn; a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

- Cynorthwyo o fewn y maes drwy ymweld a chynnal gweithgareddau o fewn adrannau ysgol ac o fewn adrannau, uwch-adrannau ac aelwydydd cymunedol ynghyd a chefnogi gwaith yr arweinyddion a'r gwirfoddolwyr
- Trefnu a mynychu cyrsiau Gwersyll gan sicrhau fod plant a phobl ifanc yr ardal yn cael cyfle i fynychu cyfnod preswyl yng ngwersylloedd yr Urdd.
- Cynorthwyo'r Swyddog Datblygu gyda gweithgareddau rhanbarthol pan fo angen yn cynnwys trefniadau a mynychu Teithiau, Eisteddfodau, prosiectau Gwaith Ieuenctid a Chwaraeon .
- Bydd targedau penodol i gynyddu niferoedd sy'n mynychu gwersylloedd yr Urdd yn ogystal ag aelodaeth yr Urdd.
- Hybu aelodau i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r mudiad ar raddfa ranbarthol a thaleithiol.
- Sicrhau fod cofnod o'r gwaith gan gynnwys data ar niferoedd a gweithgareddau yn cael ei gadw ar raglen benodol a gwefan yr Urdd.
- Diweddaru safle We ac App 'Fy Ardal' y Rhanbarth gan edrych yn benodol hefyd ar facebook a Twitter y Rhanbarth.

Hanfodol:

- Rhaid bod yn drefnus a meddu ar sgiliau cyfathrebu ac ysgrifennu da.
- Gallu gweithio ar liwt eu hunain ac hefyd cydweithio fel aelod o dim.
- Bod a thrwydded yrru lan a defnydd o gar ar gyfer y swydd gan fod teithio yn rhan annatod o'r dyletswyddau.

Dymunol:

- Profiad o weithio yn uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc - boed yn gyflogedig neu yn wirfoddol.
- Cymhwyster Gwaith Ieuenctid Lefel 2/3 – bydd yn cael ei gynnig fel rhan o'r swydd
- Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch a Chymorth cyntaf – bydd yn cael ei gynnig fel rhan o'r swydd.
- Mynychu cwrs Asesu Risg (Off-Site Safety) – bydd yn cael ei gynnig fel rhan o'r swydd.

Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:
Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd:
Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd ei dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.
Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad:
Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma Mis Ionawr 2019 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (ceir manylion llawn yn y Llawlyfr Staff**)**

Teitl y swydd:	Swyddog Datblygu Cynorthwyol Morgannwg Ganol
Yn atebol i:	Swyddog Datblygu Morgannwg Ganol a thrwyddo i Gyfarwyddwr y Dalaith.
Cyflog:	Ar raddfa 4 Strwythur Cyflog yr Urdd £17,557 (Pwynt 1) - £20,353 (Pwynt 6) pro rata. Penodir ar Bwynt 1, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu un pwynt ychwanegol
Cytundeb:	Cytundeb tymor penodol hyd at ddiwedd Mawrth 2020 (dibynnir parhad y swydd hon ar gyllid allanol).
Oriau gwaith:	Wythnos waith sylfaenol yw 35 awr yr wythnos. Gweithredir cynllun oriau hyblyg.
Lleoliad:	Swyddfa'r Urdd, Ysgol Gyfun Llanhari. CF72 9XE
Gwyliau blynyddol:	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth.
Cyfnod prawf:	Bydd cyfnod prawf o 6 mis.
Pensiwn:	Bydd cyfle i ymuno â phensiwn mewnol yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'.
Archwiliad meddygol:	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.